Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru

gweithdai agored

dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 1.12.08

CBAC WJEC

FFEDERASIWN CERDDORIAETH AMATUR CYMRU
TŶ CERDD MUSIC CENTRE WALES

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Dance Wales

GWYBODAETH

Lansiwyd Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru (DGIC) yn 2000. Mae'n darparu canolbwynt cenedlaethol ar gyfer dawns ieuenctid yng Nghymru ac mae'n agored i bobl ifanc, rhwng 14 - 21 oed, sydd wrth eu bodd â dawns a dawnsio!

Mae DGIC yn gweithio'n bennaf gyda ffurfiau dawns creadigol, cyfoes ond anogir ceisiadau gan bobl ifanc sydd â phrofiad o amrywiaeth eang o arddulliau dawns, gan gynnwys cyfoes, bale, jazz, hip-hop/dawnsio stryd, modern, ayb, cyhyd â bod y cyfranogwyr yn barod i drosglwyddo'u sgiliau i ffordd wahanol o weithio – neu o leiaf roi cynnig ar wneud hynny!

Mae DGIC yn cynnig cyfleoedd hyfforddi dosbarth cyntaf i ddawnswyr ifanc, trwy raglen o weithdai agored i ddechrau. Wedi'r gweithdai agored hyn, gwahoddir hyd at 30 o ddawnswyr (16 – 21 oed) i gymryd rhan mewn cwrs preswyl dawns dwys sy'n ddiweddu â pherfformiad cyhoeddus o waith newydd – yn aml mewn rhai o theatrau mwyaf poblogaidd Cymru (e.e. Clwyd Theatr Cymru yn yr Wyddgrug, Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu a'r Sherman yng Nghaerdydd). Yn 2008, gwahoddwyd DGIC i berfformio yn Theatr y Peacock yn Llundain fel rhan o *Ŵyl Ddawns Genedlaethol Ieuenctid* Dawns Genedlaethol Lloegr.

Ers y cwrs preswyl blynyddol cyntaf yn 2001, mae DGIC wedi gweithio gyda rhai o goreograffwyr gorau a gwobrwyol Ewrop - gan gynnwys **Wayne MacGregor** (Cwmni Dawns Random) a **Henri Oguike** (Cwmni Dawns Henri Oguike). Mae dawnswyr proffesiynol sydd wedi gweithio gyda DGIC fel tiwtoriaid a mentoriaid yn dawnsio ar hyn o bryd gyda Chwmni Dawns Random, Cwmni Dawns Henri Oguike, Cwmni Dawns Richard Alston, Diversions - y Cwmni Dawns o Gymru a Chwmni Dawns Bonachela – i enwi ond ychydig!

Gweithdai Agored DGIC 2009
Mae DGIC yn bwriadu cynnig cyfres o weithdai agored mewn lleoliadau ar draws Cymru - gan gynnwys Gogledd, Canolbarth/Gorllewin, De Orllewin a De Ddwyrain Cymru. Bydd dyddiadau a lleoliadau'r gweithdai yn seiliedig ar ledaeniad daearyddol yr ymgeiswyr (rhaid i bob gweithdy gael o leiaf 12 cyfranogwr; trefnir dyddiadau/lleoliadau ychwangeol os oes digon o alw).

Cwrs Preswyl Blynyddol DGIC 2009
Mae'n OFYNNOL bod dawnswyr ifanc sy'n dymuno cael eu hystryied am gwrs preswyl DGIC wedi cymryd rhan mewn Gweithdy Agored DGIC; ar ôl hynny, gwahoddir dawnswyr i ymuno â Chwrs Preswyl DGIC. Bydd manylion pellach ar gael yn y Gweithdai Agored.

Gweithdai Agored (diwrnod llawn: 10am – 4pm)
Cost: £15 y person

Bydd Gweithdai Agored DGIC yn cynnwys nifer o elfennau: bydd yr ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn dosbarth techneg (paratoi'r corff trwy gyfres o ymarferion dawns), sesiwn greadigol a sesiwn goreograffi (dysgu darn wedi'i goreograffu neu symuniadau). Bydd y gweithdai'n ceisio adeiladu ar sgiliau a phrofiadau dawnsio yr ymgeiswyr, a chynnig cyfleoedd i archwilio amrywiaeth o syniadau mewn ffordd greadigol. Anfonir manylion pellach atoch unwaith y bydd lleoedd ar gyfer y gweithdai wedi'u cadarnhau.

Gofynion Ymgesiwyr
Dylai ymgeiswyr fod wrthi'n ymwneud â grŵp dawns yn yr ysgol/coleg, neu gyda grŵp neu gwmni dawns ieuenctid lleol. Dylai'r ymgeiswyr fod rhwng 14 – 21 oed ar gyfer y Gweithdai Agored, a rhwng 16 – 21 oed os ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer Cwrs Preswyl blynyddol DGIC.

Sut i Wneud Cais
Llenwch y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi a dychwelwch hi **erbyn 1af Rhagfyr 2008**, at:

DGIC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX

Cymorth Ariannol
Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd neb yn cael ei atal rhag gwneud cais am DGIC oherwydd rhesymau ariannol. Mae'r holl geisiadau am gymorth ariannol yn gwbwl gyfrinachol.

Gwybodaeth bellach
Cysylltwch â Gillian Wells ar 029 2026 5006 neu e-bostiwch gillian.wells@nyaw.co.uk am wybodaeth bellach am DGIC neu Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

Gwyliwch y DVD!

Mae pob ysgol, coleg a sefyliad dawns cymunedol ar draws Cymru wedi derbyn DVD am DGIC – mae'n dangos beth yw DGIC, ar gyfer pwy y mae DGIC a sut i fod ynghlwm â'r cyfan. Gofynnwch i'ch athro/arweinydd dawns neu eich athro Addysg Gorfforol ei ddangos i chi a'ch ffrindiau!

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Dance Wales

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Cais i ymuno â DGIC 2009

Printiwch yr holl wybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon yn cael ei chadw ar Gronfa Ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid. O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn dymuno rhoi eich manylion cyswllt i fudiadau celfyddydau eraill. Os **nad** ydych yn dymuno i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: ☐

Cyfenw: _____ Enw(au) cyntaf: _____

Dyddiad Geni: _____ Oed ar 31.08.09 (blynyddoedd/misoedd): _____

Cyfeiriad cartref: _____

Tref/Dinas: _____ Cod post: _____

Awdurdod Lleol: _____ Rhif Fôn Cartref: (_____) _____

Rhif Ffôn Symudol: _____ Cyfeiriad e-bost: _____

Ysgol/Coleg/Prifysgol: _____

Cyfeiriad tymor (os yn wahanol i'r cyfeiriad cartref uchod): _____

_____

Awdurdod Lleol: _____

Os ydych wedi bod yn aelod o gwrs preswyl DGIC neu wedi cymryd rhan mewn gweithdai DGIC o'r blaen, rhowch fanylion o dyddiad(au) a lleoliad(au) y cwrs preswyl a/neu'r gweithdy(gweithdai):

_____

Lleoliad / Dydd y Gweithdy Agored sydd orau gennych chi
Nodwch eich dewis **cyntaf** ac **ail** ddewis ar gyfer y lleoliad gan ysgrifennu 1 a 2 yn y blychau priodol

De Orllewin Cymru ☐ (gan gynnwys Abertawe)
De Ddwyrain Cymru ☐ (gan gynnwys Caerdydd a Chasnewydd)

Canolbarth / Gorllewin Cymru ☐ (h.y. Powys / Ceredigion)
Gogledd Orllewin Cymru ☐
Gogledd Ddwyrain Cymru ☐

Nodwch **(✓)** y dydd sydd orau gennych ar gyfer Gweithdy Agored : Sadwrn ☐ Sul ☐

_____

Mae DGIC yn ceisio, lle y bo'n bosibl, i weithio yn Saesneg ac yn Gymraeg; ticiwch (✓) eich rhuglder yn yr iaith Gymraeg

Rhugl (Iaith 1af) ☐ Rhugl (2il Iaith) ☐ Cyffyrddus/gwybodaeth sylfaenol ☐ Dim ☐

Ai iaith ar wahân i Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf? ☐ Iaith: _____

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Dance Wales

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Nodwch gan roi ✓ y blwch(blychau) sy'n gymwys i chi:

Rwy'n dawnsio'n rheolaidd yn yr ysgol/coleg ☐
Rwy'n aelod o grŵp(grwpiau) dawns ieuenctid ☐ Enw'r grŵp(grwpiau) _____
Rwy'n mynychu ysgol ddawns breifat ☐ Enw'r ysgol ddawns _____
Rwy'n mynychu dosbarth(iadau) dawns yn rheolaidd trwy sefydliad ddawns cymunedol ☐ Enw'r sefydliad ddawns cymunedol _____
Rwy'n mynychu gwersi / cyrsiau dawns eraill ☐ Rhowch fanylion _____
_____
_____

Ers pryd ydych chi wedi bod yn dawnsio?

Mwy na 10 mlynedd	☐	5-10 mlynedd	☐
1-4 blynedd	☐	Llai nag 1 flwyddyn	☐

Nodwch gan roi ✓ os ydych chi wedi profi <u>unrhyw</u> o'r canlynol:

Arddulliau dawns Affricanaidd neu Indiaidd	☐	Coreografffi	☐
Modern	☐	Bale	☐
Hip-hop	☐	Tap	☐
Dawnsio cyfoes	☐	Byrfyfyr	☐
Dawnsio creadigol	☐	Jazz	☐
Eraill (enwch)	☐	_____	

A ydych chi wedi gweld unrhyw berfformiad gan DGIC? ☐ Ydw ☐ Nac ydw
Os ydych, pa un? _____

Rhaid i'ch ffurflen gais gael ei chefnogi gan rywun sy'n eich adnabod chi a'ch diddordeb mewn dawns (gall fod eich Prifathro, Athro/Athrawes neu Arweinydd Dawns)

Enw'r Canolwr: _____ Galwedigaeth: _____

Cyfeiriad Cyswllt: _____

Rhif ffôn yn ystod y dydd: _____

Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch canolwr. Sicrhewch bod yr holl fanylion yn gywir.

Llofnod yr ymgeisydd: _____ Dyddiad: ____/____/____

Dylid dychwelyd y ffurflen gais wedi'i llenwi at y cyfeiriad canlynol erbyn **<u>1 Rhagfyr 2008:</u>**

Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX

ffôn: 029 2026 5006 ffacs: 029 2026 5014 e-bost: gillian.wells@nyaw.co.uk www.nyaw.co.uk